Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Calon Cymru

**Ffordd y Coleg**
**Llanfair ym Muallt**
**Powys**
**LD2 3BW**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Calon Cymru

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Calon Cymru |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 989 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 857 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 132 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 18.5%) | 15% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 23%) | 28.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 5.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.2% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/03/2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/10/2022 |
| Hwn yw arolygiad cyntaf yr ysgol | |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Calon Cymru yn darparu amgylchedd tawel, gofalgar a chyfoethog lle mae llawer o ddisgyblion yn datblygu i fod yn unigolion hapus, hyderus a pharchus. Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn barchus tuag at ei gilydd, yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda staff yr ysgol, ac yn gyfeillgar gydag ymwelwyr. Mae disgyblion sy’n mynychu canolfan Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth (CSA) yr ysgol yn gwneud datblygiad cryf yn eu medrau cymdeithasol a’u medrau bywyd, ac yn ymdopi’n dda pan fyddant yn mynychu gwersi prif ffrwd gyda chymorth. Mae grwpiau gweithredu sefydledig wedi’u harwain gan ddisgyblion, fel y ‘Criw Cymraeg’, y grŵp LHDTC+ a’r ‘Grŵp Iechyd Meddwl Gwrywaidd’ yn chwarae rôl bwysig mewn helpu datblygu ethos cynhwysol yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion, gan gynnwys disgyblion sy’n llywodraethwyr a ‘chapteiniaid dosbarth’ yn cael digon o gyfleoedd i rannu eu barn ar agweddau pwysig eraill ar waith yr ysgol, fel ansawdd yr addysgu.

Mae’r ysgol yn darparu ystod eang a pherthnasol o ddewisiadau pwnc ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ac ar gyfer y rhai yn y chweched dosbarth. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ddilyn cyrsiau ac ennill cymwysterau yn eu meysydd diddordeb, ac yn eu paratoi’n dda ar gyfer cyflogaeth, addysg bellach neu hyfforddiant hefyd, ac ar gyfer bywyd y tu hwnt i’r ysgol. Er bod y cynnig cwricwlwm eang yn gryfder yn yr ysgol, mae ystod y pynciau sydd ar gael i ddisgyblion sy’n dymuno astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfyng.

Mae disgyblion yn elwa ar amrywiaeth o glybiau allgyrsiol a gweithgareddau cyfoethogi. Mae llawer ohonynt yn ffynnu oherwydd darpariaeth gref yr ysgol ar gyfer gofal bugeiliol, cymorth ac arweiniad. Ceir trefniadau priodol ar gyfer datblygu addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd disgyblion o fewn y cwricwlwm ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, mae cyfleoedd annigonol i ddisgyblion hŷn ddysgu a siarad am faterion pwysig sy’n effeithio arnyn nhw, fel perthnasoedd, iechyd a lles, addysg ariannol a medrau bywyd.

Agorwyd yr ysgol ym mis Medi 2018 ac roedd yng nghamau cychwynnol ei bodolaeth o hyd pan ddechreuodd y pandemig ym mis Mawrth 2020. Penodwyd y pennaeth i swydd barhaol yn 2021, a ffurfiwyd yr uwch arweinyddiaeth newydd a chyflawn yn ddiweddar iawn. Mae uwch arweinwyr wedi rhannu gweledigaeth glir ac uchelgeisiol gyda disgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr. Er bod mwy o sefydlogrwydd yn yr ysgol erbyn hyn, mae anghysondebau yn ansawdd arweinwyr canol, yn enwedig eu gallu i gynllunio ar gyfer gwelliannau. Er bod arweinyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau lles ac ar ansawdd y gofal bugeiliol, nid yw wedi cael digon o effaith ar wella addysgu a dysgu eto, ac ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol disgyblion.

Er bod cryfderau clir ym mhrosesau’r ysgol i ddiogelu plant a phobl ifanc, nododd arolygwyr fod diffygion yn y safonau iechyd a diogelwch ar y ddau gampws.

## Argymhellion

A1 Gwella ansawdd yr addysgu.

A2 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol ar draws y cwricwlwm

A3 Cryfhau prosesau cynllunio gwelliant

A4 Mynd i'r afael â'r problemau iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol.

Oherwydd y problemau iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad, bydd Estyn yn cyflwyno llythyr lles i'r ysgol a'r awdurdod lleol, ac yn gofyn iddynt ddarparu cynllun gweithredu i ymateb i'r problemau a nodwyd. Bydd Estyn yn gofyn am sicrwydd eu bod yn mynd i'r afael â'r diffygion yn briodol.

## Prif werthusiad

### Dysgu

At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas mewn gwersi a thros gyfnod. Maent yn galw gwaith blaenorol i gof yn dda ac yn symud ymlaen yn eu dysgu gyda rhwyddineb rhesymol. Mewn ychydig o bynciau, lle mae'r addysgu'n gryf, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu a'u medrau ac yn cwblhau tasgau i safon uchel. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, mae cyflymdra'r dysgu yn rhy araf, fel arfer o ganlyniad i ddiffygion yng nghynllunio athrawon. Yn y gwersi hyn, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau cystal ag y gallent.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n ofalus ac yn astud ar gyfarwyddiadau athrawon ac ar y cyfraniadau a wna eu cyfoedion yn y dosbarth. Lle ceir cyfleoedd i wneud hynny, mae mwyafrif y disgyblion yn rhoi ymatebion hyderus ar lafar gan ddefnyddio ystod resymol o derminoleg sy'n benodol i bwnc. Er enghraifft, mewn drama, mae disgyblion yn cyfleu eu barn yn gydlynus wrth werthuso effeithiolrwydd perfformiadau grŵp. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae disgyblion yn cynnig ymatebion byr neu annatblygedig yn unig. Mae hyn yn bennaf oherwydd natur gyfyngedig yr holi gan athrawon. Mewn ychydig o wersi, lle mae athrawon yn cynllunio'n ofalus ar gyfer datblygu llafaredd, mae llawer o ddisgyblion yn rhoi ymatebion estynedig ar lafar, gan esbonio cysyniadau a'u syniadau yn dda. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion mwy abl yn mynegi eu barn yn aeddfed a gydag ystod eang o derminoleg soffistigedig.

Yn gyffredinol, mae disgyblion sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn siarad â rhuglder a chywirdeb da. Er bod gan ychydig o ddisgyblion iau eirfa gyfyngedig, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu medrau siarad cryf wrth iddynt symud ymlaen yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen sylfaenol cadarn dros gyfnod. Maent yn defnyddio technegau sefydledig, fel bwrw golwg dros destunau byr i ddod o hyd i ffeithiau a dewis gwybodaeth gywir. At ei gilydd, maent yn llwyddiannus wrth gyflwyno gwybodaeth berthnasol, er nad yw lleiafrif bach ohonynt yn cynnig ymatebion digon manwl. Mewn gwersi Saesneg, mae llawer o ddisgyblion yn casglu gwybodaeth yn llwyddiannus o ystod eang o destunau llenyddol ac anllenyddol, ac yn defnyddio amrywiaeth o fedrau darllen lefel uwch i wneud hynny. Maent yn defnyddio rhesymu a dod i gasgliad yn briodol i ddehongli ystyr o destunau, ac ystyried sut mae awduron yn defnyddio technegau fel perswadio a dychan i ddylanwadu ar y darllenydd neu'i ddifyrru. Mewn gwersi llenyddiaeth Gymraeg, gall disgyblion hŷn gymharu a chyferbynnu themâu, materion a safbwyntiau, wrth ddarllen amrywiaeth o destunau. Mewn ychydig iawn o bynciau heblaw Saesneg a Chymraeg iaith gyntaf, mae disgyblion yn datblygu'n addas mewn medrau darllen lefel uwch, er enghraifft pan fyddant yn nodi gwahanol ddehongliadau o'r un thema mewn testunau cyferbyniol, a chynnig ymatebion dilys a chraff. Fodd bynnag, oherwydd cyfleoedd prin, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn datblygu eu medrau darllen lefel uwch ar draws y cwricwlwm.

Mewn gwersi Saesneg a Chymraeg iaith gyntaf, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n rhugl a gyda chydlyniaeth rhesymol mewn amrywiaeth eang o

arddulliau, ac at ystod addas o ddibenion. Er enghraifft, mewn Saesneg, mae disgyblion iau yn creu darnau estynedig da o ysgrifennu Gothig disgrifiadol. Mae disgyblion mwy abl yn cyfansoddi darnau estynedig crefftus sy'n cynnwys geirfa eang a nodweddion amrywiol o ran arddull i greu effaith, er enghraifft trwy ddefnyddio iaith emosiynol a chwestiynau rhethregol.

Ar draws bron pob pwnc perthnasol, mae disgyblion yn strwythuro eu hysgrifennu'n dda mewn paragraffau ac is-benawdau, ar y cyfan. Fodd bynnag, ym mhob pwnc, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg mynych yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn rhy aml, maent yn parhau i ail-wneud yr un camgymeriadau mewn tasgau newydd.

Mewn ychydig o bynciau eraill ar draws y cwricwlwm, mae disgyblion yn gwneud datblygiad cadarn yn eu medrau ysgrifennu. Maent yn creu darnau estynedig sy'n helpu datblygu eu medrau ysgrifennu ochr yn ochr â'u gwybodaeth am y pwnc. Er enghraifft, mewn hanes, mae disgyblion yn ysgrifennu disgrifiad manwl o fywyd yn y ffosydd gan ddefnyddio amrywiaeth addas o ansoddeiriau a geirfa i ddisgrifio emosiynau'r milwyr a'r amodau roedden nhw'n byw ynddynt. Mewn gwersi iechyd a gofal cymdeithasol, mae disgyblion yn gwneud defnydd priodol o iaith dechnegol fel termau yn gysylltiedig â'r menopos pan fyddant yn ysgrifennu am broblemau bywyd. Fodd bynnag, oherwydd anghyfartaledd mewn cyfleoedd ar draws pynciau, nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent wrth ddatblygu medrau ysgrifennu, ar y cyfan.

At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud datblygiad cadarn mewn medrau rhifedd yn eu gwersi mathemateg. Yn gyffredinol, mae ganddynt amgyffrediad da o bedair rheol rhif, ac yn cymhwyso'u gwybodaeth yn briodol wrth ddarganfod problemau sylfaenol, er enghraifft y rhai sy'n cynnwys degolion, canrannau a ffracsiynau. Mae llawer o ddisgyblion yn rhoi dilyniannau sylfaenol o rifau yn eu trefn, yn talgrynnu rhifau ac yn trin ffigurau sylweddol yn dda. Mewn ychydig iawn o bynciau heblaw mathemateg, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth gymhwyso eu gwybodaeth i wahanol gyd-destunau. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, mae'r mwyafrif ohonynt yn defnyddio diagramau Sankey yn llwyddiannus i arddangos effeithlonrwydd, ac yn defnyddio fformiwlâu yn briodol. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd mor gryf ag y gallent ar draws yr holl bynciau perthnasol. Er enghraifft, nid oes ganddynt hyder a gallu i ddefnyddio medrau rhifyddeg i ddatrys problemau bob dydd. Mae hyn oherwydd diffygion yng nghynllunio athrawon ar gyfer datblygu rhifedd.

Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn briodol mewn gwersi technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), ac mewn ychydig o bynciau eraill ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, defnyddiant ystod gyfyng o gymwysiadau digidol i gyflwyno'u gwaith. Mae disgyblion yn y chweched dosbarth sy'n astudio dylunio a thechnoleg yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau digidol pan fyddant yn defnyddio rhaglenni digidol i ddylunio cynhyrchion.

Mewn ychydig iawn o bynciau, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud datblygiad buddiol yn eu medrau meddwl, er enghraifft pan fydd disgyblion mewn gwersi Saesneg yn gwneud defnydd effeithiol o'r strategaeth 'ymennydd gwag' i ystyried nodweddion araith berswadiol effeithiol. Mewn lleiafrif o bynciau, mae disgyblion yn datblygu medrau creadigol defnyddiol. Er enghraifft, maent yn dylunio a chreu

cyfarpar tacluso desg wedi'i seilio ar eu diddordebau a'u hobïau unigol. Mewn drama, mae disgyblion yn gweithio'n greadigol ac yn arddangos medrusrwydd corfforol da tra'n gweithio gyda'i gilydd i ddefnyddio eu cyrff i greu siapiau o wrthrychau cartref.

O ganlyniad i gymorth pwrpasol, mae bron pob un o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau unigol. Mae llawer o ddisgyblion sy'n mynychu'r ganolfan CSA yn gwneud cynnydd cadarn dros gyfnod, yn enwedig o ran datblygu medrau cymdeithasol a chyfathrebu. Er enghraifft, maent yn gwneud cynnydd da wrth iddynt weithio trwy raglenni llythrennedd emosiynol ac mewn tasgau sy'n canolbwyntio ar iechyd a pherthnasoedd.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae Ysgol Calon Cymru yn ysgol gynhwysol lle mae staff yn rhoi ffocws cryf ar les, a dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Mae staff a grwpiau disgyblion yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i greu amgylchedd tawel a gofalgar, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n rhydd oddi wrth unrhyw fwlio neu aflonyddu. Mae bron pob un ohonynt yn deall yn glir at bwy i droi os bydd angen cymorth arnynt, a sut i gael cymorth.

Mae 'Criw Enfys' yn effeithiol wrth gynrychioli cymuned LHDTC+ yr ysgol a grwpiau eraill wedi'u harwain gan ddisgyblion, ac yn codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau plant. Maent yn gweithio'n gynhyrchiol gyda staff i hyrwyddo'r gwerthoedd hyn ac ymestyn dealltwriaeth o bwysigrwydd goddefgarwch a pharch. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn oddefgar o'i gilydd, yn trin ei gilydd yn deg ac yn rhyngweithio'n dda â'u cyfoedion, oedolion ac ymwelwyr.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn gadarnhaol mewn rhaglen eang o weithgareddau allgyrsiol. Maent yn elwa ar gyfleoedd i ddatblygu eu ffitrwydd a'u medrau corfforol. At ei gilydd, mae disgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau iach am fwyd a diod. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar fynychu'r clwb brecwast am ddim a'r clwb cinio, ac yn mwynhau'r clwb coginio amser cinio ac ar ôl yr ysgol.

Mae disgyblion o bob cefndir yn ymgymryd â rolau arwain pwysig, er enghraifft fel disgyblion sy'n llywodraethwyr neu lysgenhadon iechyd meddwl gwrywaidd. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu hyder. Mae grwpiau disgyblion, fel y 'Criw Cymraeg' sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, yn fodelau rôl cadarnhaol ar draws cymuned yr ysgol. Maent yn eirioli'n gryf ar ran eu cyfoedion, er enghraifft pan fyddant yn gwneud cyflwyniadau i staff i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg o gwmpas yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn arolygon rheolaidd i rannu eu barn a'u syniadau ar faterion allweddol. Mae 'capteiniaid dosbarth disgyblion' etholedig yn dechrau helpu'r ysgol i gasglu barn disgyblion ar faterion perthnasol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r gwaith hwn, ynghyd â gwaith disgyblion yn y cyngor ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cynorthwyo pobl eraill a bod yn ddinasyddion da, er enghraifft pan fyddant yn trefnu

sesiynau rheolaidd i gasglu sbwriel yn y gymuned. Mae llawer o ddisgyblion chweched dosbarth yn gweithio gyda disgyblion iau yn yr ychydig wythnosau cyntaf yn nhymor yr hydref i'w helpu i setlo yn eu hysgol newydd. Mae ychydig o ddisgyblion hŷn yn gweithredu fel mentoriaid ac yn darparu cymorth academaidd gwerthfawr i ddisgyblion ym Mlwyddyn 7 mewn clybiau gwaith cartref. Yn ychwanegol, anfonodd disgyblion lythyrau a negeseuon fideo annwyl at breswylwyr cartrefi gofal lleol yn ystod y pandemig.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol a'u medrau menter yn dda. Er enghraifft, maent yn paratoi cyflwyniadau crefftus am eu menter busnes i gyflogwyr lleol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn dyfalbarhau â thasgau, hyd yn oed pan fyddant yn ddi-fflach neu'n mynd ymlaen yn rhy hir. Maent yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau athrawon ac yn parchu cyfraniadau pobl eraill. O roi'r cyfle iddynt, maent yn gweithio'n dda mewn parau a grwpiau bach. Mae mwyafrif y disgyblion yn ymateb yn dda i adborth athrawon ar eu gwaith, ac yn ymateb i sylwadau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, mae gan ychydig o ddisgyblion agweddau gwael at ddysgu. Maent yn dangos ychydig iawn o ddiddordeb yn eu gwaith ac yn rhoi'r gorau i ganolbwyntio. Yn yr achosion hyn, nid yw disgyblion yn cwblhau tasgau hyd eithaf eu gallu, ac yn gyffredinol, nid oes ganddynt y gwydnwch i weithio'n annibynnol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn y ganolfan CSA yn ymddwyn yn dda yn y ganolfan ac o gwmpas yr ysgol, gan gynnwys yn ystod amseroedd egwyl. Maent yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cymorth da yn emosiynol gan staff. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion hyn yn elwa ar gydbwysedd addas rhwng yr amser y maent yn ei dreulio yn y ganolfan ac mewn gwersi prif ffrwd.

Mae disgyblion Ysgol Calon Cymru yn mynychu'r ysgol yn fwy rheolaidd eleni o gymharu â'r llynedd, pan roedd gostyngiad cenedlaethol mewn presenoldeb ysgol o ganlyniad i bandemig COVID-19.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang, cytbwys a chynhwysol sy'n diwallu anghenion ei chymuned ddysgu. Mae wedi sicrhau cysylltiadau gwerthfawr â darparwyr allanol, fel y coleg addysg bellach, i sicrhau bod disgyblion yn gallu dilyn amrywiaeth o lwybrau galwedigaethol sy'n adlewyrchu anghenion awdurdodau lleol, fel amaethyddiaeth ac amrywiaeth o gyrsiau dysgu yn yr awyr agored.

Gall disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 astudio ystod eang o bynciau, gan gynnwys dylunio 3D, iechyd a gofal cymdeithasol, gwallt a harddwch ac adeiladu. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda â darparwyr allanol i gynnig arweiniad gwerthfawr i ddisgyblion ynghylch dewisiadau opsiwn. Mae'n darparu ystod eang o bynciau galwedigaethol ar gyfer disgyblion chweched dosbarth, er enghraifft busnes a chwaraeon BTEC. Un o nodweddion nodedig y chweched dosbarth yw'r cyfle i ddisgyblion ennill cymwysterau mewn meysydd fel addysgu Saesneg fel iaith dramor ac iaith arwyddion Prydain.

Mae ystod eang a helaeth o weithgareddau allgyrsiol ar gael i'r holl ddisgyblion sy'n datblygu eu medrau personol, corfforol a chreadigol yn dda. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon, yn ogystal â chlybiau drama, ioga a gwyddbwyll wythnosol. Ceir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion brofi gweithgareddau yn yr awyr agored, fel canŵio ac ogofa, yn ogystal â gweithio tuag at wobr Dug Caeredin. Mae grŵp bach o ddisgyblion yn mynychu ysgol goedwig leol fel rhan o raglen cymorth â lles.

Mae'r ganolfan CSA yn darparu profiadau dysgu gwerth chweil ar gyfer ei disgyblion sy'n datblygu eu llythrennedd emosiynol yn ogystal â'u paratoi ar gyfer byw yn annibynnol. Caiff disgyblion gyfleoedd defnyddiol hefyd i ddatblygu medrau ymarferol a medrau wedi'u seilio ar waith pan fyddant yn mynychu lleoliadau profiad gwaith lleol.

Mae athrawon ac anogwyr dysgu yn yr adran Gymraeg a'r adran Saesneg yn defnyddio asesiadau gwaelodlin yn effeithiol i'w helpu i gynllunio amrywiaeth o ymyriadau i gynorthwyo disgyblion â medrau llythrennedd gwan. Rhennir gwybodaeth o asesiadau gyda phob un o'r athrawon. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth bwysig hon i sicrhau cyfleoedd dysgu priodol a gwahaniaethol ar gyfer y disgyblion hyn.

Mae gweledigaeth yr ysgol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn glir a chynhwysfawr. Mae staff perthnasol wedi cynnal ymchwil briodol i'w helpu i gynllunio sut byddant yn ymgorffori'r weledigaeth hon ar draws y cwricwlwm. Er bod hyn megis dechrau, mae arweinwyr wedi ffurfio egwyddorion cwricwlwm addas, sef 'Adduned y Cwricwlwm'. Roedd yr ymarfer hwn yn cynnwys ymgynghori â staff, disgyblion, ysgolion clwstwr, rhieni, llywodraethwyr ac aelodau o'r gymuned leol. Yn ychwanegol, arweiniodd disgyblion ymarfer ymgynghori buddiol yn Ffair Aeaf leol Sioe Frenhinol Cymru.

Mae arweinwyr wedi darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol addas i staff ar sut i addysgu agweddau ar lythrennedd. Mewn ychydig o adrannau, mae cynllunio dilyniant ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn cyd-fynd yn agos â'r fframwaith llythrennedd. Mae hyn yn helpu athrawon i gynllunio cyfleoedd perthnasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, er enghraifft trwy dasgau ysgrifennu estynedig a siarad diddorol a difyr. Fodd bynnag, mewn pynciau eraill, mae cynllunio annigonol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion. Er bod cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd a TGCh mewn ychydig o bynciau, nid yw'r ysgol wedi cynllunio'n ddigon gofalus ar draws pynciau perthnasol i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn y medrau hyn.

Mae'r ysgol yn dechrau amlygu buddion dwyieithrwydd i ddisgyblion a staff. Mae grwpiau wedi'u harwain gan ddisgyblion, fel 'Y Criw Cymraeg', yn dechrau codi ymwybyddiaeth am y Gymraeg a'i diwylliant trwy ddigwyddiadau ar gyfer yr holl ddisgyblion, fel gweithdai cerddorol gyda cherddorion o Gymru a gweithgareddau chwaraeon wedi'u harwain gan y Fenter Iaith leol. Darperir lleiafrif o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 3, ond ychydig o opsiynau yn unig a gynigir yng nghyfnod allweddol 4. Ceir cyfleoedd annigonol i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu eu medrau Cymraeg mewn pynciau na nodwyd eu bod yn bynciau cyfrwng Cymraeg.

Mae disgyblion yn elwa ar ychydig o weithgareddau dysgu sy'n procio'r meddwl sy'n adlewyrchu natur ddiwylliannol, ieithyddol ac amrywiol Cymru a'r byd ehangach. Fodd bynnag, mae diffyg cynllunio ysgol gyfan trefnus a chydlynus ar gyfer darpariaeth sy'n dyfnhau dealltwriaeth disgyblion, a'u gwerthfawrogiad o'r wlad a'r byd maent yn byw ynddo.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn berthnasol ac yn ymatebol i anghenion disgyblion, ar y cyfan, gyda ffocws sensitif ar faterion fel perthnasoedd iach. Fodd bynnag, ceir darpariaeth gyfyngedig ar gyfer ABCh berthnasol a chyfoes i ddisgyblion hŷn.

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn amrywiol. Mae ychydig o athrawon yn ymarferwyr llawn cymhelliant sy'n llwyddo i sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Mae mwyafrif yr athrawon yn darparu profiadau dysgu addas ar gyfer disgyblion, ond nid ydynt yn amrywio eu strategaethau addysgu yn ddigon aml i ennyn brwdfrydedd dysgwyr a chynyddu eu hymgysylltiad â dysgu. Mewn ychydig o achosion, mae diffygion mewn addysgu yn golygu bod cynnydd dysgwyr yn arafach na'r disgwyl.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar fedrau da o ran rheoli ystafell ddosbarth, ac yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda'u disgyblion. Mewn llawer o achosion, mae hyn yn llwyddo i greu amgylchedd gweithio diogel a digynnwrf ar gyfer dysgu. Ym mwyafrif yr achosion, mae athrawon yn defnyddio adnoddau addas i gefnogi addysgu a dysgu. Mae ganddynt wybodaeth bwnc gref ac yn modelu iaith dda yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r athrawon hyn yn annog ac yn canmol disgyblion ac yn eu cynorthwyo'n briodol wrth iddynt weithio. Maent yn cylchu'r ystafell ddosbarth yn rheolaidd i wirio cynnydd, ac yn cynnig arweiniad defnyddiol i ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae mwyafrif yr athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddarllen ar goedd mewn gwersi. Maent yn gofyn cwestiynau'n rheolaidd i wirio dealltwriaeth disgyblion, ac yn cynnig adborth dilys ar lafar. Mae mwyafrif yr athrawon hefyd yn rhoi adborth ysgrifenedig ar waith disgyblion.

Yn yr ychydig wersi hynod effeithiol, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni, ac maent yn darparu tasgau gyda lefel gref o her. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn defnyddio adnoddau o ansawdd uchel i gefnogi addysgu a dysgu. Maent yn gofyn cwestiynau agored, treiddgar ac anodd i herio meddwl disgyblion, datblygu eu gallu i ddatrys problemau neu i feddwl yn annibynnol. Mae'r athrawon hyn yn darparu adborth ysgrifenedig tra ystyriol ar waith disgyblion ac yn sicrhau bod disgyblion yn cwblhau unrhyw dasgau dilynol yn drylwyr.

Mewn lleiafrif o wersi, mae diffygion mewn addysgu sy'n arwain at gyfradd cynnydd araf ac ymgysylltiad a brwdfrydedd annigonol disgyblion yn eu dysgu. Mae'r diffygion hyn yn cynnwys gosod tasgau â her isel sydd â diffyg diben neu weithgareddau sydd naill ai'n mynd parhau'n rhy hir neu'n rhy ailadroddus. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn rhoi gormod o gyfarwyddyd i'r dysgu ac nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion arwain, datblygu annibyniaeth neu weithio gyda disgyblion eraill. Maent yn gofyn cwestiynau byr a syml nad ydynt yn rhoi her ddigonol i ddisgyblion. Mae adborth ysgrifenedig ar waith disgyblion yn arwynebol neu'n rhy ganmoliaethus, ac nid yw athrawon yn tynnu digon o sylw at y camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg mynych a wna disgyblion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn darparu gofal bugeiliol a chymorth cryf ar gyfer ei disgyblion. Mae ganddi ystod eang a pherthnasol o weithgareddau cyfoethogi a grwpiau llysgenhadon sy'n hyrwyddo anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion yn dda. Mae hyn yn cynnwys y Cyngor Iechyd, Lles a Chwaraeon, Criw Enfys sy'n cael ei arwain gan ddisgyblion LHDTC+, a grwpiau Llysgenhadon Iechyd Meddwl Gwrywaidd.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r ysgol yn sicrhau bod ei rhaglen ABCh yn ymateb yn brydlon i faterion personol a chymdeithasol perthnasol, sy'n dod i'r amlwg, a'i bod yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Fodd bynnag, ceir cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth ddysgu am faterion pwysig yn ymwneud â datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol, a'u trafod. Yn ychwanegol, ar hyn o bryd, ceir cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag ADY yn gryfder. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CydADY) a'r tîm lles yn adnabod y disgyblion hyn yn dda ac yn rhoi cymorth gwerthfawr iddynt. Mae'r CydADY yn cynnwys disgyblion, rhieni ac asiantaethau perthnasol yn y broses cynllunio ac adolygu statudol i sicrhau pecyn cymorth cynhwysfawr. Mae gan yr ysgol fap cynhwysfawr o'r ddarpariaeth sy'n rhoi manylion am yr amrywiaeth o ymyriadau effeithiol sy'n cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r tîm ADY a lles yn defnyddio systemau effeithiol i fonitro unrhyw ymyrraeth neu gymorth a gaiff disgyblion ag ADY, ac yn adolygu a monitro'r cynnydd a wna'r disgyblion hyn yn erbyn eu targedau unigol yn rheolaidd. Maent yn llunio proffiliau un dudalen buddiol sy'n adlewyrchu dyheadau'r disgyblion, eu hanghenion a strategaethau i'w cynorthwyo i gyflawni eu nodau. Mae athrawon yn dechrau defnyddio'r wybodaeth hon wrth gynllunio eu gwersi.

Mae'r ysgol yn diwallu anghenion disgyblion sy'n cael mynediad at y Ganolfan CSA yn dda. Mae'r ethos cefnogol yn sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn cael cymorth da yn y ganolfan, a phan fyddant yn mynychu dosbarthiadau prif ffrwd. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion hyn.

Mae staff yn gweithio'n effeithiol gydag amrywiaeth eang o bartneriaid allanol fel yr heddlu, gwasanaethau iechyd ac ieuenctid i gefnogi lles disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o glybiau allgyrsiol a gweithgareddau gwerthfawr sy'n helpu hyrwyddo ffordd iach o fyw a datblygiad cymdeithasol cadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion yn anghyson.

Mae'r ysgol yn defnyddio dulliau adferol yn dda wrth ymateb i agweddau gwael at ddysgu ac achosion o ymddygiad gwael i sicrhau bod disgyblion yn deall effaith eu gweithredoedd ar bobl eraill. Caiff y ffordd hon o weithio ddylanwad cadarnhaol ar ymddygiad llawer o ddisgyblion. Yn gyffredinol, mae staff yn cymhwyso'r systemau hyn yn dda, i helpu rheoli ymddygiad mewn dosbarthiadau. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r athrawon yn glynu'n gyson at bolisi ymddygiad yr ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer hyrwyddo a gwobrwyo presenoldeb da. Mae staff yn ymateb yn gyflym i absenoldeb disgyblion, ac yn rhoi cymorth addas ar waith i ennyn ymgysylltiad disgyblion o'r newydd, os oes angen.

Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddylanwadu ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, maent yn cyfrannu at grwpiau pwysig sy’n dathlu amrywiaeth ac yn annog parch, empathi, a chynhwysiant fel y Cyngor Iechyd, Lles a Chwaraeon. Ceir cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion rannu eu safbwyntiau ar faterion pwysig fel ansawdd yr addysgu a’r ddarpariaeth ar gyfer addysg gymdeithasol ac emosiynol. Megis dechrau datblygu y mae’r defnydd o’r cyngor ysgol i ddylanwadu ar benderfyniadau ysgol gyfan.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n dda ag ystod o bartneriaid, darparwyr addysg bellach a chyflogwyr lleol i sicrhau bod disgyblion yn wybodus ac yn cael cymorth da pan fyddant yn gwneud dewisiadau yn y dyfodol. Caiff disgyblion o bob gallu arweiniad a chymorth gwerth chweil pan fyddant yn symud i’r cam nesaf yn eu dysgu, ac wrth archwilio gyrfaoedd yn y dyfodol.

Mae diogelu plant a blaenoriaethu eu lles yn bwysig i’r ysgol, ac yn gryfder penodol. Caiff staff hyfforddiant rheolaidd a phwrpasol i’w galluogi i nodi unrhyw niwed posibl i ddisgyblion. Mae arweinwyr canol ac uwch arweinwyr bugeiliol yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau’n glir o ran gweithdrefnau amddiffyn plant. Maent yn gweithio’n gyflym ac yn fedrus gydag awdurdodau statudol perthnasol pan fydd unrhyw bryderon. Er bod sicrhau lles plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth allweddol i staff yr ysgol, mae pryderon iechyd a diogelwch ynghylch diogeledd safle ar y ddau gampws.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Ers iddo gael ei benodi ym mis Mawrth 2020, mae’r pennaeth wedi darparu arweinyddiaeth sicr a ddechreuodd yn ystod ansicrwydd y cyfnod clo cenedlaethol o ganlyniad i bandemig COVID-19. Mae ganddo weledigaeth uchelgeisiol i’r ysgol fod yn sefydliad tryloyw sy’n rhannu ei chryfderau a’i meysydd i’w datblygu a nodwyd yn agored ar draws yr ysgol a’i chymuned. Yn ychwanegol, mae’r pennaeth yn anelu at gael ysgol gwbl gynhwysol lle dylai pob disgybl gyflawni ei lawn botensial. Mae’n rhannu’r weledigaeth hon yn glir gydag arweinwyr, staff a chymuned ehangach yr ysgol.

Caiff cyfrifoldebau’r uwch dîm arweinyddiaeth eu dirprwyo’n addas, ac mae llawer ohonynt yn datblygu dealltwriaeth gadarn o’u rolau. Mae uwch arweinwyr a staff wedi bod yn gefnogol i’r pennaeth yn ystod cyfnod anodd i’r ysgol wrth ymateb i heriau’r pandemig, a thra’n parhau i sefydlu’r ysgol newydd fel un sefydliad â dau gampws. Mae llawer o arweinwyr canol yn deall eu rolau yn cefnogi ac yn gofalu am ddisgyblion, ac mae’r mwyafrif ohonynt yn arwain eu meysydd dysgu’n dda.

Mae rheolwr y ganolfan CSA, gyda chefnogaeth gan dîm o gynorthwywyr, yn creu a chynnal ethos cefnogol yn y ganolfan lle mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn ffynnu. Mae staff y ganolfan yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion disgyblion, a chânt eu defnyddio’n effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn cael cymorth da yn y gwersi prif ffrwd y maent yn eu mynychu.

Yn ddiweddar, mae’r ysgol wedi adolygu ei threfniadau ar gyfer rheolaeth llinell, ac mae strwythurau addas ar waith. Mae uwch arweinwyr yn cyfarfod yn rheolaidd ag arweinwyr canol, ac yn dilyn agenda gytûn sy’n cynnwys diweddariad ar gamau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol a ffocws clir ar agweddau ar addysgu a dysgu. Mae uwch arweinwyr yn rhoi cymorth a her addas i arweinwyr canol, sy’n gyson ar

draws yr ysgol. Fodd bynnag, mae llinellau atebolrwydd ar gyfer y ganolfan CSA yn aneglur ar hyn o bryd. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn briodol, ac mae targedau'n cyfateb i flaenoriaethau'r ysgol, ac yn addas ar y cyfan. Mae pob un o'r staff yn rhan o'r broses ac yn elwa yn gyffredinol ar ddysgu proffesiynol i'w helpu i gyflawni eu targedau. Mae arweinwyr yn adolygu cynnydd yn erbyn targedau yn rheolaidd.

Mae arweinwyr yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni ac yn meithrin perthnasoedd cynhyrchiol gyda nhw. Maent yn gwneud defnydd da o wefan yr ysgol, cyfryngau cymdeithasol, a chylchlythyrau i roi gwybod i rieni am newyddion yr ysgol, ac yn rhannu arweiniad buddiol gyda nhw ar sut i gefnogi dysgu a lles eu plant.

Mae ymateb yr ysgol i flaenoriaethau cenedlaethol yn amrywio. Mae ychydig o arweinwyr canol wedi datblygu cynlluniau dysgu ac adnoddau addas ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, ac wedi gweithio ar 'Adduned y Cwricwlwm' gyda'i hysgolion partner yn y clwstwr i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae arweinwyr wedi rhoi camau gweithredu ar waith yn llwyddiannus ar gyfer lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae hyn yn bennaf trwy ddefnydd gofalus o'r grant amddifadedd disgyblion ar gyfer gofal bugeiliol, cyflenwi brecwast am ddim, ariannu ymweliadau addysgol, sicrhau bwrsarïau gan fusnes lleol a darparu gwisg ysgol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn hyrwyddo manteision dwyieithrwydd yn ddigon da, ac nid ydynt yn annog disgyblion a staff i ddefnyddio'r iaith yn gyson mewn gwersi y tu allan i'r rhai nad ydynt yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw arweinyddiaeth ar gyfer cynllunio dilyniant medrau disgyblion yn ddigon cryf.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn darparu her gadarn yn seiliedig ar y wybodaeth a gânt. Mae'r is-bwyllgorau llywodraethwyr presennol yn cynnwys aelodau sydd â phrofiad perthnasol sy'n canolbwyntio ar feysydd allweddol yng ngwaith yr ysgol, ac yn dwyn arweinwyr ar bob lefel i gyfrif yn dda. Mae llywodraethwyr, trwy'r is-bwyllgor lles, yn sicrhau bod trefniadau i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn briodol.

Mae'r rheolwr busnes, y pennaeth a'r corff llywodraethol yn monitro adnoddau'r ysgol yn agos. Er eu bod yn rheoli'r costau o ddydd i ddydd yn ofalus, mae gan yr ysgol ddiffyg mawr yn y gyllideb sy'n tyfu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Nid yw wedi gallu gosod cyllideb gytbwys yn ystod y flwyddyn ac mae'n gweithio gyda'r awdurdod lleol gyda bwriad i leihau'r diffyg. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ariannol yn rhwystro'r ysgol rhag ychwanegu neu uwchraddio adnoddau er budd yr holl ddisgyblion, fel offer TGCh.

Mae gan yr ysgol galendr o weithgareddau priodol at ddibenion hunanwerthuso a sicrhau ansawdd. Mae gweithgareddau hunanwerthuso ysgol gyfan yn nodi'n briodol y meysydd gwannach sydd angen eu gwella. Mae'r ysgol wedi nodi pedwar maes eang i'w gwella yn ei chynllun gwella. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn cynllunio camau gweithredu ar gyfer gwella yn ddigon manwl gywir, ac nid ydynt wedi rhoi trefniadau sy'n briodol glir ar waith ar gyfer monitro cynnydd.

Mae arweinwyr canol yn casglu tystiolaeth addas o weithgareddau fel teithiau dysgu, craffu ar waith disgyblion a holi barn disgyblion. Er bod llawer o arweinwyr yn defnyddio'r prosesau hyn yn briodol i nodi meysydd eang sydd angen eu gwella, nid ydynt bob amser yn nodi'n ddigon da nodweddion addysgu a dysgu penodol sydd

angen eu datblygu. O ganlyniad, nid ydynt wedi gallu cynllunio’n ddigon cywir i wella meysydd pwysig.

Mae arweinwyr wedi creu ethos cadarnhaol sy’n hyrwyddo dysgu proffesiynol parhaus ar gyfer pob un o’r staff. Maent wedi datblygu ‘Siarter Dysgu Proffesiynol’ glir sy’n amlinellu ei uchelgais i fod yn sefydliad dysgu sy’n defnyddio’r safonau proffesiynol mewn addysgu i fyfyrio ar ei arfer a gwella. Caiff staff gyfle i elwa ar ystod o gyfleoedd datblygiad proffesiynol priodol sy’n diwallu eu hanghenion unigol a blaenoriaethau strategol yr ysgol, ar y cyfan. Mae’r rhain yn cynnwys diwrnodau datblygu yn yr ysgol bob tymor, sesiynau a ddarperir gan ddarparwyr allanol a chyrsiau ar ddatblygu’r Cwricwlwm i Gymru. Caiff pob aelod o staff gyfleoedd buddiol i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgorau sy’n eu galluogi i rannu a datblygu eu harferion ystafell ddosbarth a datblygu eu medrau arwain. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ychydig o feysydd gwaith yr ysgol.

Mae’r ysgol wedi buddsoddi cryn dipyn o adnoddau i ddatblygu arweinwyr canol. Fodd bynnag, nid yw’r gweithgareddau datblygiad proffesiynol hyn wedi cael digon o effaith ar godi safonau disgyblion ac ar wella ansawdd yr addysgu.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  05/12/2022